Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Syr Thomas Picton
# Queensway
# Hwlffordd
# Sir Benfro
# SA61 2NX

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Syr Thomas Picton yn ysgol gymunedol gymysg i rai 11 i 18 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Benfro. Ar hyn o bryd, mae 1,220 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 254 yn y chweched dosbarth. Mae hyn o gymharu â 1,169, gan gynnwys 201 yn y chweched dosbarth, adeg yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2010.

Mae’r ysgol yn gwasanaethu Hwlffordd, Neyland a’r ardal wledig gyfagos. Mae tua 12.6% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%.

Daw tua 2% o ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg. Mae tua 2% o ddisgyblion yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan 22% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, o gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 20.1%. Mae gan tua 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.4%.

Bu’r pennaeth presennol yn y swydd er Medi 2013. Mae’r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth, pedwar pennaeth cynorthwyol, rheolwr busnes yr ysgol a thri aelod cysylltiol ar secondiad o blith arweinwyr canol oddi mewn i’r ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Syr Thomas Picton yn 2014-2015 yw £4,178 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Benfro yw £5,140 a’r lleiafswm yw £4,093. Mae Ysgol Syr Thomas Picton yn y chweched safle o’r wyth ysgol uwchradd yn Sir Benfro o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol wrth gyrraedd gwersi, ac yn ymroi i'w gwaith yn gyflym
- Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ac yn datblygu ystod o fedrau'n dda
- Mae disgyblion yn cyflawni'n dda mewn gwyddoniaeth a Chymraeg yng nghyfnod allweddol 4
- Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu ystod eang o weithgareddau chwaraeon a cherddorol
- Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chefnogol

Fodd bynnag:

- Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd
- Mewn ychydig o wersi, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel ac nid yw gweithgareddau'n ennyn diddordeb disgyblion yn ddigonol nad yn bodloni eu hanghenion
- Mae perfformiad disgyblion yn y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, ar hyn o bryd
- Nid yw cyfraddau presenoldeb yn gwella'n ddigon cyflym
- Nid yw cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau dysgu

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn dangos arweinyddiaeth effeithiol ar draws yr ysgol ac yn cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer gwella yn dda
- Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac ansawdd darpariaeth
- Mae uwch arweinwyr yn defnyddio data'n dda i fonitro perfformiad a chaiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif yn gynyddol am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni
- Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi nodi blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer yr ysgol, sy'n gyson â blaenoriaethau cenedlaethol, fel lleihau effaith difreintedd a gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion
- Mae partneriaethau sydd wedi eu hen sefydlu â darparwyr lleol yn gryf

Fodd bynnag:

- Mae ansawdd arweinyddiaeth ganol yn rhy amrywiol
- Nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn amlygu meysydd pwysig i'w datblygu yn ddigon da
- Mae anghysondeb yn ansawdd a thrylwyrder hunanarfarniad arweinwyr canol

## Argymhellion

A1 Codi safonau a gwella perfformiad ar draws cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig ymhlith bechgyn

A2 Gwella medrau arweinyddiaeth arweinwyr canol

A3 Gwella ansawdd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant gan arweinwyr canol

A4 Gwella presenoldeb disgyblion

A5 Mynd i'r afael â'r pryderon iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf, Yn 2014, mae hyn yn rhoi'r ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, wedi iddi fod yn y 50% uwch yn y ddwy flynedd flaenorol. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi amrywio, er y bu uwchlaw cyfartaledd y teulu am y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2014, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi symud yr ysgol o'r 50% uwch i'r 50% is o ysgolion tebyg. Er bod perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella, mae'n rhoi'r ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o hyd, ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2014, ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster.

Yn y chweched dosbarth, bu perfformiad yn nhrothwy lefel 3 uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu am y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi amrywio, ond bu'n sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill cyrhaeddiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn rhoi'r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o hyd, ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2014, mae perfformiad islaw'r disgwyliadau wedi'u modelu.

Yn 2014, yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ac mae'r bwlch rhwng eu perfformiad yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenhedlaeth ar gyfer llawer o'r dangosyddion allweddol, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 3, dirywiodd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosydd pwnc craidd am y tair blynedd hyd at 2014. Er bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cyflawni uwchlaw'r disgwyliadau yng nghyfnod allweddol 4, yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 islaw'r disgwyliadau. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni'n dda.

Mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ac, erbyn hyn, mae'n rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2014, yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion wedi cyflawni cymhwyster trothwy lefel 2 yn y cwrs llawn Cymraeg ail iaith. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac yn ddeilliant cryf.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblon yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn, ac yn datblygu medrau priodol. Maent yn symud ymlaen trwy dasgau a gweithgareddau'n dda ac yn dangos dealltwriaeth gymwys o gysyniadau pynciau allweddol. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth yn dda i sefyllfaoedd newydd ac

anghyfarwydd. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion alw cynnwys eu gwaith i gof yn llawn ac yn gywir. Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn ymateb yn dda i weithgareddau heriol ac yn gallu darparu sylwadau addas ar eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Gallant gynllunio, dylunio a mireinio gwaith yn effeithiol wrth weithredu ar gyngor i wneud rhagor o welliannau. Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Nid yw'r disgyblion hyn yn cwblhau tasgau i'r safon y gallant ei chyflawni, ac yn aml, mae ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig neu anghyflawn o'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn effeithiol i'w hathrawon a'u cyfoedion, ac yn adeiladu ar sylwadau pobl eraill mewn trafodaeth grŵp. Mae mwyafrif y disgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae lleiafrif y disgyblion yn gofyn cwestiynau treiddgar i'w hathrawon a'i gilydd. Nid oes gan ychydig o ddisgyblion ruglder na hyder yn eu gwaith llafar ac nid yw'r disgyblion hyn yn barod i gyfranogi mewn trafodaethau grŵp neu ddosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau darllen cadarn ac yn gallu tynnu gwybodaeth o ystod o ffynonellau. Mae llawer o ddisgyblion yn arfarnu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn dda, a gallant esbonio syniadau ac ymresymu'n glir. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud nodiadau priodol, ac yn dewis gwybodaeth briodol i ddod i gasgliadau.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau cynhwysfawr ac estynedig o waith ysgrifenedig, a gallant ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mewn ychydig o bynciau, mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn ac yn defnyddio iaith greadigol yn effeithiol ar gyfer tasgau ysgrifenedig penodol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o eirfa sy'n benodol i bwnc yn dda i gymharu ac arfarnu eu gwaith yn gymwys. Gallant ddisgrifio digwyddiadau a phrosesau'n glir. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ac maent yn cynhyrchu gwaith o ansawdd amrywiol. Yn ogystal, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn sillafu geiriau sy'n benodol i bwnc yn gywir ac maent yn gwneud gwallau atalnodi sylfaenol, fel defnydd anghywir o briflythrennau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau rhifedd a gallant lunio graffiau'n gywir o ddata a ddarperir. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn dangos gallu gwael i alw medrau rhif sylfaenol i gof wrth luosi, mesur, a defnyddio degolion a ffracsiynau. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i ddatrys problemau.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt o'r farn bod yr ysgol yn dda am fynd i'r afael â bwlio. Maent yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw ac ymarfer corff rheolaidd, ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol. Mae'r rhain yn amrywio o gampau tîm i rygbi i ferched a boccia.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, maent yn gwrtais ac yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd, â'u hathrawon ac ag oedolion eraill. Mae ganddynt fedrau cymdeithasol datblygedig a chânt eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddysgu ac yn cyfranogi'n frwdfrydig.

Er bod cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ffigurau hyn wedi rhoi'r ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac islaw'r disgwyliadau wedi'u modelu. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, bu nifer y gwaharddiadau am chwe diwrnod neu'n hwy yn fwy na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n weithredol at wneud penderfyniadau am yr ysgol. Er enghraifft, bu'r cyngor ysgol a grwpiau eraill yn effeithiol o ran cyfrannu at welliannau fel diogelwch disgyblion a'r wisg ysgol. Mae cynrychiolwyr y cyngor ysgol yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol ac yn darparu adborth defnyddiol ar faterion fel polisïau ysgol. Mewn ychydig o bynciau, ymgynghorwyd â disgyblion ynghylch sut y cânt eu haddysgu a'r ffyrdd mwyaf effeithiol y maent yn dysgu. Er mai dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn, mae'n cael effaith gadarnhaol ar safonau yn yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ynghyd ag ystod gynhwysfawr o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion disgyblion yn dda ac mae wedi cyfrannu'n llwyddiannus at godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Yn 2014, enillodd y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth y diploma sylfaen, canolradd neu uwch.

Mae ystod eang o weithgareddau chwaraeon, cerddorol a gweithgareddau eraill y mae nifer fawr o ddisgyblion yn cymryd rhan ynddynt, yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran integreiddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Mae llawer o bynciau'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer a gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei chydlynu ar draws yr ysgol y mae'r ddarpariaeth hon. Mae'r ysgol yn llwyddiannus o ran adnabod y disgyblion hynny sy'n cael y drafferth fwyaf â medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'n darparu rhaglenni cymorth effeithiol i'r disgyblion hyn trwy sesiynau wedi'u hamserlennu â hyfforddwyr dysgu, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn llwyddiannus ac mae wedi dod yn nodwedd gref o'r ysgol. Yn 2014, dilynodd bron y garfan lawn y cwrs llawn TGAU mewn Cymraeg ail iaith ac enillodd llawer ohonynt gymhwyster lefel 2. Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael sylw priodol mewn pynciau heblaw Cymraeg ac yn ethos a gweithgareddau'r ysgol, er enghraifft trwy ymweliadau â'r theatr, Eisteddfod yr Urdd ac ymweliadau preswyl.

Mae’r ysgol yn cyfrannu’n llwyddiannus at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Mae ganddi gysylltiadau defnyddiol â Zanzibar, sy’n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddeall yr heriau y mae diwylliant gwahanol yn eu hwynebu. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ailgylchu a garddio.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu’n dda, er y barnwyd bod safonau’n ddigonol, oherwydd bod athrawon yn cynllunio’n ofalus i ddarparu amrywiaeth o dasgau diddorol a symbylol sy’n cyfateb yn dda i anghenion a galluoedd llawer o ddisgyblion. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau yn effeithiol i symbylu a herio disgyblion. Yn y gwersi hyn, gall disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain ac maent yn gwneud cynnydd gwerthfawr.

Ar draws yr ysgol, mae ansawdd yr addysgu mewn llawer o wersi yn gryf. Yn y gwersi hyn, mae amgylchedd dysgu cadarnhaol a rhediad bywiog, sy’n cael eu hategu gan berthynas waith effeithiol rhwng y staff a disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio’n effeithiol, yn gosod amcanion clir ac yn ennyn diddordeb disgyblion trwy ystod o weithgareddau symbylol a chwestiynau treiddgar, medrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Mae cymorth unigol i ddisgyblion, ynghyd ag adborth llafar clir, yn galluogi athrawon i wirio a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Yn y gwersi hyn, gwna disgyblion gynnydd hynod effeithiol yn gyson. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac mae llawer ohonynt yn modelu iaith yn effeithiol, yn ogystal ag atgyfnerthu termau pynciau’n rheolaidd yn ystod gwersi. Mae hyn yn cadarnhau dealltwriaeth disgyblion o ystod o eirfa briodol. Mae’r defnydd effeithiol o staff cymorth yn cyfrannu’n sylweddol at gynnydd disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau priodol o uchel ar gyfer disgyblion. Mae rhediad yr addysgu yn y gwersi hyn yn rhy gyflym neu’n rhy araf, ac nid yw’n cynnal dysgu disgyblion yn ddigon da. Yn aml, caiff y gweithgareddau eu harwain gormod gan athrawon ac ni chânt eu haddasu’n ddigon da i fodloni anghenion dysgu disgyblion unigol. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud bob tro, yn enwedig y rhai mwy abl a’r rhai y mae angen mwy o gymorth arnynt.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac mae llawer ohonynt yn darparu sylwadau ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion am yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mewn llawer o bynciau, mae marcio’n canolbwyntio’n briodol ar ansawdd gwaith ysgrifenedig disgyblion a chaiff gwallau sillafu, atalnodi a gramadegol eu nodi a’u cywiro gan ddisgyblion. Mewn ychydig o adrannau, gwna disgyblion ddefnydd gwerthfawr o hunanasesu ac asesu cyfoedion i arfarnu eu gwaith.

Mae’r ysgol yn datblygu ei defnydd o ddata ar bob lefel i wella asesu ac olrhain perfformiad disgyblion. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 4, mae arweinwyr pwnc yn defnyddio data’n llwyddiannus i olrhain cynnydd disgyblion a chynllunio ymyriadau addas, yn ôl yr angen. Maent yn dadansoddi canlyniadau disgyblion unigol yn effeithiol a chanlyniadau grwpiau o ddisgyblion yn dda. Mae disgyblion yn gwybod beth yw eu targedau a’r meysydd hynny y mae angen iddynt eu gwella.

Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 3, nid yw dadansoddi data ac olrhain cynnydd disgyblion yr un mor drylwyr.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau defnyddiol i rieni o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys adroddiad interim â lefelau neu raddau targed, ac adroddiad diwedd blwyddyn sy'n darparu manylion priodol am berfformiad presennol disgyblion ym mhob pwnc a thargedau ar gyfer gwella. Caiff rhieni'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Caiff rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol ei chynllunio'n dda. Mae'n cynnwys ystod eang o bynciau'n ymwneud ag iechyd a materion moesol, sy'n briodol ac yn berthnasol. Caiff cyfnodau cofrestru eu defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion ac i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Gwna'r ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol i fynd i'r afael â bwlio. Mae hyn yn cynnwys 'botwm bwli' ar wefan yr ysgol, y mae disgyblion yn ei ddefnyddio i roi gwybod yn uniongyrchol i aelod staff am eu pryderon. Eir ar drywydd y rhain yn brydlon.

Mae staff yn cydweithio ag ystod o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhain yn darparu cymorth ac arweiniad targedig i ddisgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd emosiynol a'u hymddygiad. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd partner i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt ymuno â'r ysgol. Mae disgyblion a rhieni'n derbyn ystod ddefnyddiol o wybodaeth, arweiniad a chymorth yn ymwneud ag opsiynau a gyrfaoedd.

Mae'r broses adolygu flynyddol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn bodloni gofynion statudol. Mae cynorthwywyr cymorth yn darparu cymorth gwerthfawr yn y dosbarth i ddysgwyr unigol. Caiff anghenion dysgu ychwanegol eu nodi'n gynnar ac mae'r ysgol yn darparu ymyrraeth effeithiol i'r disgyblion hynny sy'n ymuno â'r ysgol â lefelau darllen isel. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau dysgu, ac nid yw trefniadau i sicrhau bod athrawon yn bodloni anghenion disgyblion penodol mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn ddigon systematig.

Er bod trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r rhan fwyaf o ofynion, codwyd mater iechyd a diogelwch a oedd yn peri pryder â'r ysgol yn ystod yr arolygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae Ysgol Syr Thomas Picton yn gymuned gynhwysol sy'n ceisio cydnabod a chynnwys pawb. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau bod egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal yn cael eu cymhwyso'n llwyddiannus i bob un o'r disgyblion, beth bynnag fo'u rhyw neu hil. Mae disgyblion yn falch o'u hysgol a'u cyfraniad at ei llwyddiant. Mae'r ysgol yn darparu cyfle iddynt ddatblygu hunan-barch a pharch tuag at bobl eraill yn eu cymuned.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'i hadeiladau ac mae wedi ymgymryd â gwelliannau sylweddol i greu amgylchedd dysgu symbylol. Mae digon o adnoddau dysgu i gynnal addysgu a dysgu effeithiol. Mae'n awyddus i ddathlu gwaith, cyfranogiad a chyflawniad y disgyblion ac mae ganddi ardaloedd dynodedig trwy'r ysgol gyfan i arddangos a dathlu eu llwyddiant. Mae cyfleusterau chwaraeon cynhwysfawr, gan gynnwys cyfadeilad chwaraeon, trac rhedeg a chae bob tywydd, sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned leol hefyd. Mae'r toiledau, yr ardaloedd newid a'r safle cyfan yn cael eu rheoli'n ofalus a'u cynnal a chadw'n dda.

Fodd bynnag, mae ychydig o bryderon iechyd a diogelwch yn ymwneud ag agweddau ar adeiladau a thir yr ysgol. Codwyd y rhain â'r ysgol yn ystod yr arolygiad.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth, wrth gydweithio ag uwch arweinwyr a llywodraethwyr, yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol a chyfeiriad priodol i'r ysgol. Gyda'i gilydd, maent wedi bod yn llwyddiannus o ran hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion disgyblion. Mae hyn wedi cynnwys nodi blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer yr ysgol, sy'n gyson â blaenoriaethau cenedlaethol, fel lleihau effaith difreintedd a gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Y blaenoriaethau hyn yw'r sbardunau ar gyfer gwelliant yn amcanion strategol yr ysgol, mewn cynlluniau gwella ac mewn prosesau ar bob lefel.

Mae strwythur arweinyddiaeth yr ysgol, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, yn helpu i arwain at linellau atebolrwydd cliriach a mwy diffiniedig. Er enghraifft, mae'r cyfarfodydd rheolaidd rhwng arweinwyr pwnc a'u rheolwyr llinell yn canolbwyntio mwy ar berfformiad disgyblion, a chaiff pwyntiau gweithredu dilynol penodol eu monitro'n ofalus. Er bod uwch arweinwyr yn darparu cymorth priodol i'r holl staff, at ei gilydd, nid oes cydbwysedd yn nosbarthiad y cyfrifoldebau ar draws y tîm arweinyddiaeth.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio data'n dda i fonitro perfformiad, a chaiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif yn gynyddol am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae hyn yn helpu i wella darpariaeth a deilliannau, fel perfformiad gwell disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 mewn arholiadau allanol yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith barhaus y trefniadau newydd hyn ac, at ei gilydd, nid yw rheolwyr ar bob lefel wedi cael digon o effaith ar godi safonau a gwella presenoldeb ar draws yr ysgol.

Mae llawer o reolwyr canol yn darparu arweinyddiaeth gadarn sydd wedi ei ffocysu'n dda yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw ychydig o reolwyr canol yn defnyddio data'n ddigon da i arfarnu a monitro perfformiad, olrhain cynnydd disgyblion a herio eu timau a disgyblion i wella.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yr ysgol yn darparu dull effeithiol o adolygu gwaith staff a nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad unigol ac ysgol-gyfan. Pan gaiff tanberfformiad ei nodi, eir i'r afael â hyn yn briodol.

Mae llywodraethwyr yn gwbl ymrwymedig i gynorthwyo'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac ansawdd darpariaeth. Mae gan lywodraethwyr wybodaeth dda am y rhan fwyaf o agweddau ar waith yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n briodol at osod ei chyfeiriad strategol a mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol. Trwy gyfres o is-bwyllgorau defnyddiol, mae aelodau'r corff llywodraethol yn craffu ar waith yr ysgol yn ofalus, fel ei staffio a'i threfniadau ariannol, ac yn cynorthwyo'r ysgol yn effeithiol fel cyfaill beirniadol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau systematig i arfarnu effeithiolrwydd ei gwaith ac i gynorthwyo ei phroses hunanarfarnu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori'n briodol â disgyblion a rhieni i gasglu eu barn ar lawer o agweddau o ddarpariaeth. Mae'r wybodaeth gyfunol yn helpu'r ysgol i feddu ar ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae adroddiad hunanarfarnu'n ysgol yn cynnwys dadansoddiad priodol o ddata perfformiad disgyblion ac yn rhoi arfarniad rhesymol o berfformiad yr ysgol. Mae'r adroddiad yn cysylltu'n briodol â'r cynllun gwella ysgol, ac mae iddo ddeilliannau mesuradwy, yn enwedig mewn meysydd allweddol fel codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 a gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu adroddiad hunanarfarnu cryno defnyddiol sy'n amlygu meysydd allweddol i'w datblygu ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhy ddisgrifiadol, ac nid yw'n cynnwys dadansoddiad clir ac arfarniad o dystiolaeth uniongyrchol mewn meysydd allweddol fel cynnydd disgyblion mewn gwersi ac ansawdd addysgu a dysgu.

Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn cynnwys ystod ddefnyddiol o wybodaeth. Fodd bynnag, ar draws adrannau, mae'r adroddiadau'n rhy anghyson yn y ffordd y caiff data perfformiad disgyblion ei ddadansoddi. Mae lleiafrif o adroddiadau'n nodi meysydd i'w gwella yn glir; maent yn hunanfeirniadol ac yn defnyddio data perfformiad disgyblion yn dda i osod targedau heriol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r adroddiadau'n rhy gadarnhaol; nid yw meysydd i'w gwella'n cael eu nodi'n glir bob tro, ac nid yw cynlluniau gweithredu'n ddigon cadarn na heriol bob tro. Nid yw'r adroddiadau hyn yn defnyddio data'n ddigon da i fonitro ac adolygu perfformiad na gosod targedau heriol ar gyfer gwella.

Mae uwch arweinwyr wedi cryfhau a datblygu eu gwaith ag arweinwyr adrannol i wella eu dealltwriaeth o ddadansoddi data perfformiad disgyblion a chynllunio ar gyfer gwella. Mae cynlluniau adrannol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ysgol gyfan, er nad oes digon o ffocws i gamau gweithredu bob tro i arwain at welliannau.

Defnyddia'r ysgol raglen arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion, sy'n darparu tystiolaeth uniongyrchol ddefnyddiol o ansawdd addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Mae'r arsylwadau hyn wedi eu cysylltu'n briodol ag adolygu perfformiad staff ac adolygiadau adrannol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas waith werthfawr ag ystod eang o bartneriaid sy'n gwneud cyfraniad llwyddiannus at waith yr ysgol. Mae'r cysylltiadau hyn yn effeithiol o ran hyrwyddo lles disgyblion a chyfoethogi eu profiadau dysgu.

Mae partneriaethau bugeiliol ag ysgolion cynradd partner yn gryf ac mae trefniadau pontio effeithiol yn sicrhau bod disgyblion yn symud yn hyderus o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ym Mlwyddyn 7 ac mae'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael cymorth priodol. Fodd bynnag, nid yw cysylltiadau â'r ysgolion cynradd i sicrhau dilyniant mewn medrau llythrennedd a rhifedd wedi eu datblygu cystal.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf ag ysgolion eraill a darparwyr hyfforddiant 14-16 o fewn Ffederasiwn Gogledd Sir Benfro. Mae'r partneriaethau hyn wedi arwain at welliant sylweddol yn ystod y cyrsiau sy'n cael eu cynnig yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16. Mae hyn wedi arwain at leihau nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig, a gwella deilliannau i ddisgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau effeithiol â'r gymuned fusnes leol i sicrhau ystod eang o gyfleoedd profiad gwaith i'w disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau gwerthfawr â rhieni. Cânt wybodaeth briodol am waith yr ysgol a lles a chynnydd eu plentyn.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ac yn defnyddio ei staff a'i hadnoddau'n effeithiol. Mae nifer briodol o staff i fodloni'r cwricwlwm statudol a chaiff bron pob un o'r gwersi eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc.

Mae staff addysgu a chymorth yn elwa'n sylweddol ar ystod eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys cyfle i fynychu rhaglenni addysg uwch yn gysylltiedig â'u swydd neu leoliadau secondiad. Caiff y cyfleoedd hyn eu nodi'n briodol trwy adolygiadau rheoli perfformiad a gosod amcanion, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ysgol-gyfan a blaenoriaethau tîm. Sefydlwyd ystod o weithgorau defnyddiol i wella asesu ac adrodd, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, llythrennedd a rhifedd, a chyflwyno polisi ymddygiad ysgol-gyfan cynhwysfawr.

Mae rheolwr busnes yr ysgol, ynghyd ag uwch arweinwyr a llywodraethwyr, yn monitro cyllid yr ysgol yn drylwyr. Caiff yr holl wariant ei gyllido'n ofalus a'i ddyrannu i flaenoriaethau a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys y grant amddifadedd disgyblion, a ddefnyddiwyd yn gall i wella deilliannau i'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

O ystyried y safonau digonol y mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ond bu islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion yn gyson. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol wedi ei rhoi yn yr hanner is mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, ac yn y chwarter isaf yn 2014. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu'n uwch wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf, ac wedi bod islaw cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd diwethaf. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r perfformiad hwn wedi rhoi'r ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 6 neu'n uwch wedi gwella'n sylweddol yn y ddwy flynedd diwethaf ac, erbyn hyn, mae'n rhoi'r ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg, o fod yn y chwarter isaf yn y pum mlynedd blaenorol. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, er iddo roi'r ysgol yn y chwarter isaf yn 2012 a 2014, ac yn yr hanner is o ysgolion tebyg yn 2013 ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac islaw cyfartaledd y teulu. Ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, ond mae islaw cyfartaledd y teulu o hyd ac mae wedi rhoi'r ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg am y ddwy flynedd diwethaf. Gwellodd perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch yn 2012 a 2013, ond mae wedi dirywio rhywfaint yn 2014. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi rhoi'r ysgol yn y chwarter isaf ar ôl bod yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg yn 2013 a'r hanner is yn 2012. Yn 2013 a 2014 ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gwella'n sylweddol, ac mae'n rhoi'r ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac uwchlaw cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2014, mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol islaw'r disgwyliadau ar gyfer pob dangosydd.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2014, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi dirywio am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r perfformiad hwn yn rhoi'r ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o gymharu â'r chwarter uchaf a'r hanner uwch am y ddwy flynedd gynt. Yn 2014, mae'r perfformiad hwn islaw cyfartaledd y teulu ac yn rhoi'r ysgol islaw'r disgwyliadau wedi'u modelu. Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi rhoi'r ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim am y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2014, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi gwella, ond mae'n rhoi'r ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o gymharu â'r hanner uwch y flwyddyn gynt. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru o hyd. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 a'r rhai sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol o hyd. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi cynyddu am y drydedd flwyddyn yn olynol ac mae uwchlaw cyfartaledd y teulu. Mae hyn yn rhoi'r ysgol yn yr

hanner uwch o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni trothwy lefel 1, er bod perfformiad yn y dangosydd hwn yn rhoi'r ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu am y tair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella yn 2014 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er ei fod yn rhoi'r ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o hyd ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o gymharu â'r chwarter uchaf yn 2012. Yn 2014, mae perfformiad mewn mathemateg wedi dirywio, ac mae hyn yn rhoi'r ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg, ar ôl ei rhoi yn yr hanner uchaf am y tair blynedd diwethaf. Yn 2013, roedd cynnydd disgyblion o'r cyfnodau allweddol blaenorol yn well na'r disgwyl yn nhrothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio, ond yn waeth na'r disgwyl yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg, y dangosydd pwnc craidd a throthwy lefel 1.

Nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster yn y ddwy flynedd diwethaf ac mae llawer o ddisgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed. Nid oes yr un disgybl a adawodd yr ysgol yn 16 oed wedi ei gofnodi/chofnodi fel nad yw mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Yn y chweched dosbarth, mae data ar gyfer trothwy lefel 3 yn dangos y bu perfformiad uwchlaw cyfartaledd yr awdurdod lleol ac uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol am y saith mlynedd diwethaf. Yn ogystal, bu'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf.

Yn 2014, yng nghyfnod allweddol 3, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y dangosydd pwnc craidd, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac mae'r bwlch mewn perfformiad yn fwy na chyfartaledd y teulu. Mewn Saesneg ar lefel 6 neu'n uwch, lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn, mae'r bwlch mewn perfformiad yn fwy na chyfartaledd y teulu ond yr un fath â chyfartaledd Cymru. Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn mathemateg ar lefel 6 neu'n uwch, ac mae'r perfformiad hwn yn cyferbynnu â chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol, lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn. Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob un o'r dangosyddion allweddol, ac mae'r bwlch mewn perfformiad yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mewn Saesneg a mathemateg ar wahân, mae bwlch sylweddol rhwng perfformiad merched a bechgyn, ac mae bechgyn yn tanberfformio. Mae'r bwlch hwn yn fwy na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2013, nid oedd disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru yn y dangosydd pwnc craidd, Saesneg a mathemateg ar y lefelau disgwyliedig ac uwch. Yn y dangosydd pwnc craidd, perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw'r isaf o gymharu â disgyblion tebyg yn eu teulu o ysgolion, ac mae islaw cyfartaledd Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae tuedd ar i fyny i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae disgyblion yn perfformio'n well na chyfartaledd y teulu a

chyfartaledd Cymru yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg, trothwy lefel 2 a’r dangosydd pwnc craidd.  Yn 2014, mae perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ym mron pob un o’r dangosyddion. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni’n well na’r disgwyl.

Mewn asesiadau cyfnod allweddol 3 yn 2014, mae perfformiad mewn llefaredd wedi gwella, er ei fod islaw cyfartaledd y teulu.  Mae perfformiad mewn darllen wedi dirywio dros y ddwy flynedd diwethaf ac, erbyn hyn, mae islaw cyfartaledd y teulu. Dirywiodd perfformiad mewn ysgrifennu yn 2013 a 2014 ac, erbyn hyn, mae islaw cyfartaledd y teulu a’r cyfartaledd cenedlaethol.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 643 | 237 | 368 | 32 | 6 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 37% | 57% | 5% | 1% | |
| | | 43% | 53% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 643 | 136 | 378 | 105 | 24 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 21% | 59% | 16% | 4% | |
| | | 26% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 641 | 169 | 385 | 70 | 17 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 26% | 60% | 11% | 3% | |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 644 | 132 | 402 | 91 | 19 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 20% | 62% | 14% | 3% | |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 641 | 220 | 350 | 59 | 12 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 34% | 55% | 9% | 2% | |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 644 | 179 | 414 | 47 | 4 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 28% | 64% | 7% | 1% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 645 | 164 | 407 | 68 | 6 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 25% | 63% | 11% | 1% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 643 | 116 | 348 | 143 | 36 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 18% | 54% | 22% | 6% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 641 | 210 | 378 | 48 | 5 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 33% | 59% | 7% | 1% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 641 | 68 | 375 | 171 | 27 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 11% | 59% | 27% | 4% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 642 | 120<br>19% | 357<br>56% | 127<br>20% | 38<br>6% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 28% | 51% | 17% | 4% | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 638 | 71<br>11% | 355<br>56% | 168<br>26% | 44<br>7% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 641 | 179<br>28% | 408<br>64% | 49<br>8% | 5<br>1% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 642 | 195<br>30% | 360<br>56% | 80<br>12% | 7<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 35% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 642 | 179<br>28% | 396<br>62% | 49<br>8% | 18<br>3% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 634 | 175<br>28% | 389<br>61% | 62<br>10% | 8<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 280 | 52<br>19% | 163<br>58% | 48<br>17% | 17<br>6% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 52% | 16% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 127 | 29<br>23% | 65<br>51% | 21<br>17% | 12<br>9% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 27% | 50% | 16% | 6% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion er mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 244 | 80 | 140 | 16 | 2 | 6 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 33% | 57% | 7% | 1% | | |
| | | 43% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 245 | 102 | 128 | 10 | 5 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 42% | 52% | 4% | 2% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 245 | 116 | 111 | 10 | 1 | 7 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 47% | 45% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 244 | 89 | 130 | 13 | 6 | 6 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 36% | 53% | 5% | 2% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 242 | 37 | 141 | 22 | 4 | 38 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 15% | 58% | 9% | 2% | | |
| | | 22% | 54% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 236 | 48 | 158 | 8 | 1 | 21 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 20% | 67% | 3% | 0% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 238 | 106 | 112 | 7 | 2 | 11 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 45% | 47% | 3% | 1% | | |
| | | 50% | 46% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 237 | 49 | 120 | 30 | 7 | 31 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 21% | 51% | 13% | 3% | | |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 236 | 60 | 115 | 22 | 5 | 34 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 25% | 49% | 9% | 2% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 246 | 63 | 140 | 24 | 4 | 15 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 26% | 57% | 10% | 2% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 243 | 84 | 143 | 5 | 3 | 8 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 35% | 59% | 2% | 1% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 221 | 56 | 101 | 19 | 10 | 35 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 25% | 46% | 9% | 5% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 238 | 61 | 125 | 40 | 9 | 3 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 26% | 53% | 17% | 4% | | |
| | | 33% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 242 | 77 | 131 | 20 | 8 | 6 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 32% | 54% | 8% | 3% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 242 | 42 | 116 | 42 | 6 | 36 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 17% | 48% | 17% | 2% | | |
| | | 27% | 50% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 237 | 67 | 127 | 17 | 6 | 20 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 28% | 54% | 7% | 3% | | |
| | | 35% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 224 | 36 | 95 | 21 | 8 | 64 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 16% | 42% | 9% | 4% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 241 | 51 | 115 | 38 | 5 | 32 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 21% | 48% | 16% | 2% | | |
| | | 35% | 49% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 240 | 65 | 136 | 13 | 10 | 16 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 27% | 57% | 5% | 4% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alwyn Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Michelle Gosney | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Denise Wade | Arolygydd Tîm |
| Vaughan Elwyn Williams | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Nerys Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tracy Edwards | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |